Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 337

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Rhodd tuag at Gofeb Rhyfel Pwyleg Llanelli**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**

I goffáu'r awyrenwyr Pwyleg a gollodd eu bywydau yn Sir Gaerfyrddin yn ystod yr Ail Ryfel Byd a'r cyn-filwyr Pwyleg sy'n gysylltiedig â'r ardal, ceisir arian ar gyfer gosod cofeb wrth gofadail Neuadd y Dref yn Llanelli er cof am saith awyrennwr Pwyleg sydd wedi'u claddu yn Eglwys Pen-bre a gyflawnodd yr aberth eithaf yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Mae'r gweithgarwch codi arian yn cyd-daro â digwyddiadau coffa D-Day yn Llanelli yn ystod misoedd yr haf.

Mae'r Comisiynydd wedi'i wahodd i ddigwyddiadau i gefnogi codi'r arian, ac er nad oedd modd iddo fod yn bresennol oherwydd ymrwymiadau eraill, mae'n awyddus i ddangos ei werthfawrogiad ac anrhydeddu'r rhai a wnaeth ymladd am ryddid.

Mae'r rhodd yn cynrychioli ymrwymiad y Comisiynydd tuag at gefnogi grwpiau cymunedol yn ardal Dyfed-Powys.

**Argymhelliad:**
Argymhellir rhoi cyfraniad o £250 i gefnogi codi'r arian o'r gyllideb Gwerthu Eiddo y Daethpwyd o Hyd Iddo.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 20/6/24**